OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 Rhif 169 (Cy.22)

# PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

## Rheoliadau Deddf Gofal Plant 2006(Asesiadau Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2008

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud - -* | *28 Ionawr 2008* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *30 Ionawr 2008* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Ebrill 2008* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adran 26 o Ddeddf Gofal Plant 2006(**1**), ac a freiniwyd ynddynt hwy bellach(**2**), drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Gofal Plant 2006 (Asesiadau Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2008 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2008.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru .

### Dehongli

**2.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "addysg feithrin am ddim" ("*free nursery education*") yw darpariaeth a wneir o dan drefniadau rhwng y darparydd a'r awdurdod lleol yn unol â dyletswydd yr awdurdod lleol o dan adran 118 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(**3**);

ystyr "asesiad" ("*assessment*") yw'r asesiad a gyflawnir gan awdurdod lleol o dan adran 26(1) o'r Ddeddf;

ystyr "darparydd gofal plant" ("*childcare provider*") yw unrhyw berson sy'n darparu gofal plant;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Gofal Plant 2006;

(**1**) 2006 p.21.
(**2**) Yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.
(**3**) 1998 p.31

ystyr "gofal plant" ("*childcare*") yw gofal y mae'n ofynnol ei gofrestru o dan ran 10A o Ddeddf Plant 1989(**4**)neu ofal y byddai'n ofynnol ei gofrestru o dan ran 10A onibai am y ffaith y darperir ef ar gyfer plentyn 8 oed neu drosodd;

ystyr "hyd sesiwn" ("*session length*") yw'r cyfnod hiraf o amser y bydd darparydd gofal plant yn gofalu am blentyn mewn diwrnod;

ystyr "partneriaid yr awdurdod lleol" ("*local authority's partners*") yw'r partneriaid perthnasol fel y diffinnir y term yn adran 25 o Deddf Plant 2004(**5**) a Chanolfan Byd Gwaith

(2) Yn y Rheoliadau hyn, dyma'r ystodau oedran—

(a) 2 oed ac yn is;

(b) 3 oed a 4 oed;

(c) 5 oed, 6 oed a 7 oed;

(ch) 8 oed, 9 oed a 10 oed;

(d) 11 oed, 12 oed, 13 oed a 14 oed; ac

(dd) o ran plant anabl yn unig, 15 oed, 16 oed a 17 oed.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, dyma'r mathau o ofal plant—

(a) gwarchod plant;

(b) gofal diwrnod llawn;

(c) gofal am sesiwn;

(ch) gofal y tu allan i oriau ysgol; a

(d) creches

**Materion i'w cynnwys yn yr asesiad**

**3.**—(1) Rhaid i'r asesiad gynnwys o ran pob ardal awdurdod lleol fanylion am—

(a) y nifer o leoedd addysg feithrin am ddim sy'n ofynnol;

(b) y nifer o leoedd addysg feithrin am ddim sydd ar gael;

(c) o ran pob un o'r mathau o ofal plant a phob ystod oedran—

(i) y nifer o leoedd sy'n ofynnol;

(ii) y nifer o leoedd sydd ar gael;

(iii) y nifer o leoedd sy'n ofynnol y gellir defnyddio'r elfen o ofal plant sydd yn y credyd treth gwaith ar eu cyfer;

(iv) y nifer o leoedd sydd ar gael y gallai rhieni ddefnyddio'r elfen o ofal plant sydd yn y credyd treth gwaith ar eu cyfer;

(v) yr adegau pan fo gofal plant yn ofynnol;

(vi) yr adegau pan fo gofal plant ar gael;

(vii) ystod yr hydoedd sesiwn a gynigir gan ddarparwyr gofal plant;

(viii) y gofynion am ofal arbenigol i blant anabl a phlant ag anghenion addysgol arbennig;

(ix) y nifer o leoedd sydd ar gael sy'n addas i blant ag anghenion addysgol arbennig neu sydd angen gofal arbenigol oherwydd anabledd;

(x) y nifer o leoedd sy'n ofynnol ar gyfer gofal plant drwy gyfrwng y Cymraeg ac yn ddwyieithog;

(**4**) 1989 p.41
(**5**) 2004 p.31

(xi) y nifer o leoedd gofal plant i blant Cymraeg a dwyieithog sydd ar gael;

(xii) y nifer o leoedd gwag a lleoedd heb gael eu defnyddio; ac ystod y taliadau ar gyfer y gofal plant.

(2) Rhaid i'r asesiad gynnwys crynodeb o anghenion gofal plant nad ydynt yn cael eu diwallu yn ardal yr awdurdod lleol gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â'r canlynol—

(a) y mathau o ofal sydd ar gael;

(b) oedran y plant y mae gofal ar gael iddynt;

(c) fforddiadwyedd gofal plant;

(ch) amserau pan fo gofal plant ar gael;

(d) anghenion penodol plant anabl;

(dd) argaeledd gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog; a

(e) lleoliad y gofal plant.

### Ymgynghori

**4.** Wrth baratoi'r asesiad, rhaid i'r awdurdod lleol ymghynghori â'r canlynol—

(1) plant;

(2) rhieni;

(3) darparwyr gofal plant;

(4) personau sy'n cynrychioli plant, rhieni a darparwyr gofal plant;

(5) personau sydd â buddiant mewn gofal plant a phersonau sy'n cynrychioli'r rheini sydd â buddiant mewn gofal plant;

(6) personau sy'n cynrychioli cyflogwyr a chyrff cyflogwyr lleol;

(7) cyflogwyr lleol;

(8) awdurdodau lleol cyfagos;

(9) ysgolion; a

(10) colegau addysg bellach

sydd yn yr ardal fel y mae'n ystyried sy'n briodol.

**5.** Wrth baratoi'r asesiad, rhaid i'r awdurdod lleol ymghynghori â'r canlynol—

(1) y Bwrdd Lleol ar gyfer Diogelu Plant; a

(2) partneriaid yr awdurdod lleol.

### Crynodeb ddrafft

**6.** Cyn cyhoeddi crynodeb o'r asesiad o dan reoliad 3, rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod drafft ar gael yn gyffredinol o'r crynodeb o'r asesiad y mae'n bwriadu ei gyhoeddi er mwyn rhoi cyfle i'r personau a restrir yn rheoliad 4 a 5 gyflwyno sylwadau ar y drafft.

**7.** Rhaid i'r awdurdod lleol ddiwygio crynodeb o'r asesiad drafft yn y dull y mae'n ystyried sy'n briodol wrth ymateb i unrhyw sylwadau a gafwyd yn rhinwedd rheoliadau 4 a 5.

### Cyhoeddi'r Asesiad

**8.** Rhaid i'r awdurdod lleol gyhoeddi crynodeb o'r asesiad ar wefan yr awdurdod lleol.

**9.** Rhaid i'r awdurdod lleol adneuo copïau o grynodeb yr asesiad mewn llyfrgelloedd cyhoeddus, sefydliadau gofal plant, ysgolion a lleoedd cyhoeddus eraill y mae'n ystyried sy'n briodol.

**10.** Rhaid i grynodeb o'r asesiad gynnwys—

(1) yr wybodaeth a bennir yn rheoliad 3(1) o ran ardal yr awdurdod lleol yn gyffredinol; a

(2) yr wybodaeth a bennir yn rheoliad 3(2).

*Jane Hutt*
Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru.

28 Ionawr 2008

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gosod y cynnwys sy'n ofynnol ar gyfer asesiadau awdurdodau lleol o ofal plant yn ei ardal. Mae hyn yn cynnwys y gofynion am ofal plant ac argaeledd gofal plant yn yr ardal. Mae'r Rheoliadau hefyd yn nodi'r personau a'r cyrff y mae'n rhaid i'r awdurdod lleol ymghynghori â hwy a'r dull y mae'n rhaid cyhoeddi'r asesiad.